CANOLFAN CAERDYDD AR GYFER ADDYSG GYDOL OES
Cyrsiau Lefel 2 a'r Diploma Addysg Uwch

Mae'r Ganolfan yn cynnig **Diploma Addysg Uwch** ar Lefel 2, yn ogystal â'r Tystysgrifau Sylfaen a'r Dystysgrif Addysg Uwch ar Lefel 2. Mae'r Diploma yn cyfateb yn fras i ail flwyddyn gradd is-raddedig, ac mae wedi'i seilio ar ddewisiadau penodol o ran pynciau yn hytrach na sail mwy cyffredinol y Dystysgrif Addysg Uwch.

Ni fydd angen ichi gofrestru ar gyfer y Diploma er mwyn ymrestru ar gyfer cyrsiau Lefel 2. Er bod rhai cyrsiau yn gofyn am arbenigedd o ryw fath, mae croeso i bawb ar y cyrsiau.

Os ydych yn penderfynu eich bod yn dymuno astudio i gael y Diploma, bydd gofyn ichi ymrestru yn swyddogol, ac felly bydd angen gwybod nifer o bethau arnoch chi:

Mae'r Diploma yn cynnwys cyfres o flociau o bynciau y mae modd eu hastudio i gael **Tystysgrifau Astudio Uwch Lefel 2**. Mae'r blociau hynny fel a ganlyn:

Ffrangeg (2 floc)
Almaeneg (2 floc)
Cyfrifiaduro (3 bloc)
Eidaleg (2 floc)
Sbaeneg (2 floc)

Mae pob bloc o bynciau yn cynnwys cyrsiau sydd wedi'u dilysu at ddefnydd rhaglen y Diploma (gweler y daflen ar wahân am y rhestr gyfredol). Dyfarnir y Diploma pan fyddwch wedi cael 60 credyd ym mhob un o ddau floc o bynciau ar wahân.

I fod yn gymwys i ymrestru ar gyfer y Diploma, dylech feddu ar un o'r canlynol:

- Tystysgrif Addysg Uwch
- 120 credyd Lefel 1
- 120 credyd Lefel 1 a 2 nad ydych yn dymuno eu defnyddio ar gyfer dyfarniad ar Lefel 2
- dyfarniad sy'n cyfateb i'r Dystysgrif, neu sy'n cynnwys rhywbeth sy'n cyfateb iddi (e.e. dyfarniad Lefel 1 arall gwerth 120 credyd, Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd ayyb).

Weithiau, mae'n bosibl y bydd disgwyl ichi gwrdd â gofynion megis eich bod wedi astudio cyrsiau lefel 1 addas neu fod gennych brofiad ymarferol cyn bwrw ymlaen i astudio cwrs lefel 2 penodol. Os nad ydych yn sicr ynghylch yr hyn a ddisgwylir, dylech gysylltu â'r Darlithydd Cydlynol neu'r Cyfarwyddwr Astudiaethau.

Atebion i ambell gwestiwn:

Beth os oes gennyf rywfaint o gredydau Lefel 2 eisoes?
Ar yr amod nad ydynt wedi'u cyfrif tuag at ddyfarniad Lefel 1 eisoes (e.e. Tystysgrif Addysg Uwch), *gallant* fod yn gymwys i'w cynnwys tuag at Ddiploma neu Dystysgrif Astudiaethau Pellach Lefel 2. Mynnwch gyngor gan diwtor eich cwrs neu Ddarlithydd Cydlynol eich pwnc.

Beth os nad ydw i eisiau Diploma ond fe hoffwn i dystysgrif mewn pwnc 60 credyd?
Mae hynny'n berffaith iawn. Mae'r Diploma wedi'i greu yn y fath fodd fel bod y sawl sy'n ceisio tystysgrif 60 credyd mewn pwnc penodol yn cael cyflawni hynny. Dywedwch wrth diwtor eich cwrs eich bod yn ceisio tystysgrif Lefel 2 60 credyd, ond peidiwch ag ymrestru ar gyfer y Diploma.

Hoffwn ymrestru ar gyfer y Diploma. Sut mae mynd ati i wneud hynny?

Gofynnwch am ffurflen ymrestru gan eich tiwtor neu Dderbynfa'r Ganolfan (029-2087-0000, dysgu@caerdydd.ac.uk). Gan fod modd dyfarnu'r Diploma dim ond i'r sawl sydd â 120 credyd ar Lefel 1 neu gymhwyster sy'n cyfateb i hynny, bydd y ffurflen yn gofyn am fanylion.

Hoffwn ymrestru ar gwrs Lefel 2 ond nid wyf yn sicr a ydw i'n dymuno gwneud y Diploma.
Mae hynny'n berffaith iawn. Mwynhewch y cwrs. Os a phan fyddwch yn teimlo'n barod i ymrwymo'ch hunan i'r Diploma, gofynnwch am y ffurflen berthnasol (gw. uchod). Fodd bynnag, dylech wybod mai'r cyfle olaf ichi ymrestru ar gyfer y Diploma yw pan fyddwch wedi cael 60 credyd ar Lefel 2.

Sut ydw i'n cael gwybod pa ofynion sydd gan gyrsiau?
Mae nifer o gyrsiau Lefel 2, er nad nhw i gyd, yn disgwyl eich bod wedi ymgymryd â gwaith Lefel 1 yn yr un pwnc, neu yn gallu dangos yr un lefel o arbenigedd. Dylai'r manylion a geir yn *Choices* am y cwrs nodi unrhyw ofynion cyn ymrestru ar y cwrs. Ceir manylion pellach yn nhaflen ffeithiau'r cwrs.

Beth fydd cost cael Diploma?
Mae ein cyrsiau Diploma yn codi ffïoedd yn yr un modd â'n holl gyrsiau eraill. Ni chodir tâl ychwanegol am ymrestru ar gyfer y Diploma.

Pe bawn yn ymrestru ar gyfer y Diploma, oes terfyn amser ar gyfer ei gwblhau?
Rhoddir terfyn amser o 10 mlynedd ar bob dyfarniad gan y Brifysgol. Yn achos y Diploma, mae hynny am fod angen i'r blociau o bynciau fod yn unedau cydlynol ac yn gyfoes, ac er nad yw pob math o wybodaeth yn mynd yn hen, mae'r rhan fwyaf o theorïau am wybodaeth yn dyddio. Os ydych yn amau y bydd hyn yn peri problem i chi, cysylltwch â'r Ganolfan.

A fydd pob cwrs Diploma ar gael bob blwyddyn?
Na fydd. Mae rhai cyrsiau Lefel 2 yn rhan o gylch sy'n cael ei ailadrodd dros nifer o flynyddoedd. Byddwn yn gwneud ein gorau i ddarparu ystod mor eang â phosibl o gyrsiau Diploma/Lefel 2, ond ni fyddant i gyd ar gael mewn un flwyddyn ac maent i gyd yn gyrsiau sy'n ddibynnol ar y galw sydd amdanynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y caiff rhai cyrsiau eu canslo os na fydd digon o fyfyrwyr yn ymrestru ar eu cyfer.

Hoffwn fwy o gyngor am gyrsiau Lefel 2 a Diploma. O ble y caf i'r cyngor hwnnw?
Os ydych eisoes wedi ymrestru ar gwrs, efallai y bydd tiwtor eich cwrs yn gallu eich helpu. Os nad ydych wedi neu os hoffech fwy o gyngor, dylai'r Darlithwyr Cydlynol ym mhob maes pwnc allu eich helpu. Gallwch gysylltu â nhw dros y ffôn neu'r e-bost.

Nid yw'r pwnc y mae gennyf ddiddordeb ynddo i'w weld ar restr o flociau'r Diploma. Beth ddylwn i ei wneud?
Bydd y Ganolfan yn ychwanegu at restr y blociau o bynciau o bryd i'w gilydd. Gofynnwch wrth y Darlithydd Cydlynol perthnasol os nad oes cynlluniau i gynnig bloc Lefel 2. Hyd yn oed os nad dyna'r bwriad, efallai y bydd yn bosibl cyfuno eich diddordebau pwnc gyda rhywbeth o floc cysylltiedig. I ystyried y posibilrwydd hwn, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Astudiaethau, y Dr Zbig Sobiesierski.